Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

# Blaenoriaethau 2022 i 2027

Medi 2022

OGL © Hawlfraint y Goron 20xx, Llywodraeth Cymru, WGxxxxx, ISBN digidol 978-1-80364-865-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Teitl: Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd: Blaenoriaethau 2022-2027

Awduron:

Catrin Awoyemi

Rebecca Sarasin

Ellie Brodie

Kim Swain

Scott Clifford

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru

Diweddarwyd ddiwethaf: Awst 2022

Statws y ddogfen

Mae'r rhestr hon o flaenoriaethau yn ddogfen fyw. Mae'n cofnodi blaenoriaethau'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ar adeg benodol a chaiff y blaenoriaethau hyn, i ddechrau o leiaf, eu diweddaru a'u mireinio'n gyson. Ni fwriedir iddi fod yn rhestr benodedig o ymrwymiadau i'r Unedau. Byddwn yn ailasesu ein blaenoriaethau, yn ôl y gofyn, gyda Gweinidogion, cydweithwyr polisi a rhanddeiliaid er mwyn rheoli disgwyliadau a sicrhau bod y prosiectau rydym eisoes wedi eu dechrau yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Rydym yn cyhoeddi'r rhestr hon ar ein gwefan fel bod rhanddeiliaid yn ymwybodol ohoni ac fel y gallant gyfrannu at ein blaenoriaethau wrth iddynt esblygu.

# 1 Cefndir a chyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Ym mis Ionawr 2022, sefydlodd Llywodraeth Cymru dair Uned wahanol, pob un â'i rhaglen dystiolaeth ei hun, sef:

- Yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb
- Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil
- Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd

Bydd yr Unedau yn cydweithio fel yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd gyda Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb gyffredinol er mwyn sicrhau synergedd, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chydlyniant.

Er hwylustod, defnyddir ‘yr Unedau’ i gyfeirio at yr Unedau ar y cyd yn y ddogfen hon. Dangosir cwmpas yr Unedau yn Ffigur 1.

## 2 Cwmpas

Gwyddom fod data yn aml yn cuddio gwahaniaethau penodol ac unigryw rhwng hunaniaethau lleiafrifol ac achosion pan fo dwy neu fwy o nodweddion yn croestorri. Bydd y tair uned yn ystyried croestoriadedd yn eu gwaith a bydd angen i'r tair uned gydweithio â'i gilydd ar sawl prosiect. Bydd y tair uned hefyd yn gweithio ym mhob maes polisi allweddol. Mae materion o ddiddordeb trawsbynciol yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: statws economaidd-gymdeithasol; pobl sydd angen gofal neu gymorth; gofalwyr di-dâl; pobl ddigartref; carcharorion, pobl sydd wedi dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Bydd yr Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- ethnigrwydd
- crefydd a chred
- mudwyr
- ffoaduriaid
- ceiswyr lloches
- Sipsiwn, Roma a theithwyr.

Bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol: y model cymdeithasol o anabledd, namau corfforol, namau meddyliol, anghenion dysgu ychwanegol; niwrowahaniaeth.

Bydd yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol: rhywedd (gan gynnwys menywod, dynion a phobl anneuaidd gan gynnwys poblogaethau cisryweddol a thrawsryweddol); ailbennu rhywedd; LHDTC+ (gan gynnwys ffocws ar gydraddoldeb rhywiol sy'n cwmpasu poblogaethau cisryweddol a thrawsryweddol); oedran; rhyw (gan gynnwys gwryw, benyw a rhyngrywiol); priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth.

## 2.2 Cyflwyniad

Mae'r rhestr hon o flaenoriaethau'n cyd-fynd â'r Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb ar gyfer yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd sy'n disgrifio eu cwmpas, eu cylch gwaith a'u cynlluniau.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys tasgau y mae angen eu cyflawni er mwyn sefydlu'r Unedau a blaenoriaethau ymchwil ac ystadegol allweddol. Fe'u datblygwyd gyda rhanddeiliaid ar sail y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, canlyniadau adroddiad Drws ar Glo: datgloi bywydau a hawliau yng Nghymru ar ôl COVID-19, Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru a'r  Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft. Cafodd cynlluniau gweithredu a strategaethau eraill eu hystyried hefyd ar y cyd â'r prif gynlluniau cydraddoldeb hyn a chaiff y set gyflawn ei disgrifio yn y Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb.

Rydym wedi dechrau meithrin cydberthnasau â grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau atebolrwydd ar gyfer y cynlluniau gweithredu fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r blaenoriaethau ymchwil hyn. Bydd grwpiau atebolrwydd yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer pob Uned ochr yn ochr â thrafodaethau ehangach â rhanddeiliaid. Mae'r ymrwymiadau a'r gofynion ar gyfer pob Uned ar gamau gwahanol yn eu datblygiad a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y rhestr; datganiadau lefel uchel yw rhai gofynion tra bod rhai eraill wedi'u cwmpasu'n llawn ac mae gwaith wedi dechrau arnynt yn barod.

Mae'r ddogfen hon yn rhestru blaenoriaethau presennol, sydd naill ai'n croestorri'r tair Uned neu'n ymwneud ag un Uned yn benodol. Bydd hyd yn oed flaenoriaethau sy'n ymwneud yn bennaf ag un Uned yn cynnig gwersi i'r Unedau eraill eu dysgu a bydd ein Hunedau yn cydweithio'n agos er mwyn dysgu cymaint â phosibl gan ei gilydd a gweithio mor effeithlon â phosibl.

Rhestr gychwynnol yw hon sy'n adlewyrchu ein dealltwriaeth o'r blaenoriaethau ar hyn o bryd ac mae'n gosod sail i drafodaethau â rhanddeiliaid. Mae'r rhestr yn dangos o ble y mae pob gofyniad wedi dod a'r modd y mae'n bwydo i mewn i'r cynlluniau neu'r strategaethau allweddol a ddisgrifir yn ein Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb. Wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt ac wrth i'r grwpiau ennill eu plwyf, gall y blaenoriaethau amrywio a newid. Byddwn yn ailasesu ein blaenoriaethau ochr yn ochr â gwaith y grwpiau hynny ac ar y cyd â Gweinidogion, cydweithwyr polisi a rhanddeiliaid er mwyn rheoli disgwyliadau a sicrhau bod y prosiectau rydym eisoes wedi eu dechrau yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn rhestr benodedig o ymrwymiadau i'r Unedau.

Mae pob blaenoriaeth yn y rhestr hon ar gam gwahanol yn ei datblygiad a gallai pob un ohonynt gynrychioli darn mawr o waith o gymhlethdod amrywiol. Mae mwy o waith i'w wneud i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau hyn fel eu bod yn dod yn brosiectau. Ymdrech gychwynnol yw hon i nodi'r hyn y mae angen ei wneud fel y gallwn ddechrau trafod anghenion a blaenoriaethau gyda rhanddeiliaid. Ers i'r

Unedau ddechrau ym mis Ionawr 2022 ac ers i rai aelodau o staff gael eu recriwtio, rydym wedi dechrau gweithio ar y prosiectau blaenoriaeth uchel amlwcaf ac mae manylebau ar gael ar gyfer y prosiectau hyn sy'n rhoi manylion am y nodau, y dull gweithredu a'r elfennau i'w cyflawni. Lle bo manylebau ar gael, gellir eu darparu ar gais.

## 2.3 Allwedd y tabl blaenoriaethau

**Beth sydd wedi'i gynnwys yn y tabl?**

Blaenoriaethau a thasgau allweddol ar gyfer yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd a phrosiectau a gynhelir gan ddadansoddwyr neu gydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at genhadaeth yr Unedau. Caiff prosiectau nad ydynt o dan arweiniad yr Unedau eu nodi yn y tabl.

**Penawdau'r tabl**

**Blaenoriaeth:** Un llinell yn disgrifio'r prosiect neu'r dasg dan sylw. Bydd hyn yn rhoi syniad o bwnc y prosiect ond efallai na fydd yn rhoi syniad o gymhlethdod neu hyd y prosiect.

**Ffynhonnell:** O ble y daeth yr awgrym ar gyfer y prosiect, er enghraifft, o'r gwaith i gwmpasu'r Unedau neu gynlluniau gweithredu cyhoeddedig

**Cysylltiadau / dibyniaethau:** Yn nodi unrhyw gysylltiadau neu ddibyniaethau â phrosiectau eraill ar y rhestr neu brosiectau allanol

**Uned Arweiniol:** Yn nodi pa un o'r Unedau sy'n arwain y flaenoriaeth, mae rhai yn drawsbynciol ac yn berthnasol i bob Uned, mae eraill yn ymwneud â sefydlu'r Unedau.

**Arweinydd:** Caiff y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau ar y rhestr eu harwain gan yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldebau ond mae prosiectau eraill wedi'u cynnwys os ystyrir eu bod yn hynod o berthnasol i'n rhanddeiliaid.

**Statws:** Y cam rydym wedi'i gyrraedd o fewn chylch oes y prosiect

**Amserlenni:** Awgrym ar gyfer dechrau a hyd y flaenoriaeth, bydd yn wag os na fydd gwaith wedi dechrau.

**Acronymau a thermau a ddefnyddir yn y tabl**

| Pennawd | Acronym / Term | Ystyr |
|---|---|---|
| Ffynhonnell | Sefydlu Unedau | Mae angen cyflawni'r dasg hon er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau eraill, er enghraifft, recriwtio |
| Ffynhonnell | ARWAP | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol |
| Ffynhonnell | Cwmpasu | Gwaith a wnaed yn 2021 gyda rhanddeiliaid i gwmpasu'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd |
| Ffynhonnell | AGEAP | Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru |
| Ffynhonnell | Alinio data PSED | Alinio data Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus |
| Ffynhonnell | CG LHDTC+ | Cynllun Gweithredu LHDTC+ |
| Ffynhonnell | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru |
| Ffynhonnell | PA LHDTC+ | Panel Arbenigwyr LHDTC+ |
| Ffynhonnell | Cerrig milltir tlodi | Gweithgareddau a fydd yn cefnogi cynnydd tuag at gyflawni nodau tlodi Llywodraeth Cymru |
| Ffynhonnell | ESJC | Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol |
| Ffynhonnell | IDTF | Argymhellion gan y Tasglu Data Cynhwysol |
| Ffynhonnell | PfG&Co-Op | Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a Chytundeb Cydweithio 2021 |
| Ffynhonnell | PDSAP | Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif |
| Ffynhonnell | Tasglu Hawliau Pobl Anabl | Tasglu a arweinir gan un o Weinidogion Llywodraeth Cymru a gafodd ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a nodwyd yn adroddiad Drws ar Glo a goruchwylio gwaith i ddatblygu'r camau gweithredu a fydd yn rhan o Gynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl. |
| Ffynhonnell | Adroddiad Drws ar Glo | Drws ar Glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 |
| Ffynhonnell | UA Llywodraeth y DU | Uned Anabledd Llywodraeth y DU |
| Ffynhonnell | CYP | Cynllun Plant a Phobl Ifanc |
| Ffynhonnell | WHESRi | Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru |
| Arweinydd | ERDEU | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd |
| Arweinydd | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, ein His-adran Dadansoddi fewnol |
| Arweinydd | Arweinydd maes polisi | Gall rhai meysydd polisi reoli blaenoriaethau ymchwil gyda chymorth dadansoddwyr |

| Pennawd | Acronym / Term | Ystyr |
|---|---|---|
| | | Llywodraeth Cymru neu'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldebau |
| Arweinydd | Ymchwil Data Gweinyddol Cymru | Mae rhai prosiectau yn brosiectau cysylltu data penodol a chânt eu rheoli gan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru sy'n rheoli'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw |
| Arweinydd | GCG | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Arweinydd | Canolfan Gydraddoldebau Llywodraeth y DU | Canolfan Gydraddoldebau Llywodraeth y DU |
| Statws | Wedi dechrau | Mae adnoddau wedi cael eu hymrwymo, mae manyleb ar gael ar gyfer y prosiect ac mae gwaith wedi dechrau. Ceir crynodeb o'r fanyleb yn yr Atodiad, os oes un ar gael. |
| Statws | Wedi ymrwymo | Mae cynlluniau gweithredu neu strategaethau allweddol wedi nodi bod hwn yn faes â blaenoriaeth ond nid yw'r prosesau cwmpasu na dyrannu adnoddau wedi digwydd eto. |
| Statws | Y dyfodol | Mae rhanddeiliaid wedi codi'r flaenoriaeth ymchwil hon ond ni chredir ei bod yn flaenoriaeth uniongyrchol ar hyn o bryd. |

### Blaenoriaethau'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, a'u cyfraniadau at gynlluniau a strategaethau allweddol (drafft)

| Rhif Adnabod | Blaenoriaeth | Ffynhonnell | Cysylltiadau / dibyniaethau | Uned Arweiniol | Arweinydd | Statws | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.01 | Strategaeth tystiolaeth cydraddoldeb sy'n disgrifio nodau, rolau a ffyrdd o weithio'r Unedau | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 09/2022 |
| 1.02 | Recriwtio a meithrin gallu a phrofiad bywyd o fewn y tîm | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/22 – 04/2023 |
| 1.03 | Meini prawf blaenoriaethu a phroses i nodi prosiectau ar gyfer rhaglenni gwaith yn y dyfodol | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 12/2022 |
| 1.04 | Meithrin a chynnal cydberthnasau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | Parhaus |
| 1.05 | Disgrifio sut a phryd y gellir cydgynhyrchu wrth gasglu tystiolaeth a gwneud ymchwil er mwyn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig ar bob cam. | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 03/2023 |
| 1.06 | Adnoddau a lle i ymateb i gyngor a cheisiadau | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | Parhaus |
| 1.07 | Dull gweithredu a strategaeth cysylltiadau mewnol ac allanol gan gynnwys presenoldeb ar-lein | Sefydlu Unedau | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 1.08 | Datblygu siop un stop ar gyfer tystiolaeth cydraddoldeb, hil ac anabledd yng Nghymru, ynghyd â chyngor ac arweiniad er mwyn helpu eraill gyda'r gwaith o gasglu a defnyddio data cydraddoldeb. | Cwmpasu | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 10.9 | Dull o adrodd ar gynnydd ac effaith yr Unedau | Cwmpasu | | Sefydlu Unedau | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 2.01 | Archwiliad o dystiolaeth cydraddoldeb yng Nghymru a dadansoddiad o fylchau yn arwain at flaenoriaethau eraill, gan gynnwys<br>Papur ar ffynonellau, cryfderau a gwendidau pob Uned<br>Cyngor a deunydd canllaw ar ffynonellau<br>Argymhellion ar gyfer blaenoriaethau yn y dyfodol | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Pennod Arweinyddiaeth<br>Rhaglen Lywodraethu | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 03/2023 |

| Rhif Adnabod | Blaenoriaeth | Ffynhonnell | Cysylltiadau / dibyniaethau | Uned Arweiniol | Arweinydd | Statws | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.02 | Cyngor interim ar gasglu a chyhoeddi nodweddion cydraddoldeb i Lywodraeth Cymru, cyrff yn y sector cyhoeddus ac eraill tra bod y materion yn cael eu hystyried yn fanylach | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Pennod Arweinyddiaeth Rhaglen Lywodraethu | 2.04, 3.01, 3.02, 5.01, bwydo i mewn i safonau wedi'u cysoni SYG | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 03/2023 |
| 2.03 | Casglu data, dadansoddi a chyhoeddi nodweddion Byrddau Cyrff Sector Cyhoeddus a staff | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Pennod Arweinyddiaeth, Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru, alinio data Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Rhaglen Lywodraethu | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | Cam 1: 01/2022 – 03/2023 |
| 2.04a | Ymchwilio i'r disgrifiadau presennol o nodweddion, yr hyn y maent yn ei olygu a'r rhwystrau i wella'r prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd i gasglu data cydraddoldeb, adrodd arnynt a'u defnyddio a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Gofal cymdeithasol, Cwmpasu, Drws Ar Glo, Tasglu Data Cynhwysol | 2.02, 3.01, 5.01 | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo ar gyfer gofal cymdeithasol Yn y dyfodol ar gyfer meysydd polisi eraill | |
| 2.04b | Rhoi cyngor ar ddull y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o nodi a chofnodi nodweddion unigol ar y pwynt mynediad e.e. gofal cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder troseddol<br>Mae cynlluniau gweithredu LHDTC+ wedi nodi'r meysydd o ddiddordeb canlynol: yr heddlu, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, digartrefedd, iechyd a gofal, mesurau llesiant. | Cynllun Gweithredu LHDTC+; Panel Arbenigwyr LHDTC+, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Tasglu Data Cynhwysol | 2.04a | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 2.04c | Ystyried sut y dylid sicrhau bod data ar weithgareddau'r sector cyhoeddus ar gael i'w dadansoddi'n ganolog ac, o bosibl, eu cyhoeddi (e.e. gofal cymdeithasol a throsedd a chyfiawnder ar gyfer hil) | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Pennod Trosedd a Chyfiawnder a phennod Gofal Cymdeithasol Rhaglen Lywodraethu | 20.4a, 2.04b | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo ar gyfer gofal cymdeithasol a throsedd a chyfiawnder | |
| 2.05 | Cyhoeddi'r holl ystadegau swyddogol sydd ar gael yn ôl nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig os yw Llywodraeth Cymru yn eu casglu'n barod ond nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau (yn unol â rheolau datgelu) | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer gofal cymdeithasol | | Trawsbynciol | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Wedi ymrwymo | |

| Rhif Adnabod | Blaenoriaeth | Ffynhonnell | Cysylltiadau / dibyniaethau | Uned Arweiniol | Arweinydd | Statws | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaglen Lywodraethu, Tasglu Data Cynhwysol | | | | | |
| 2.06a | Edrych ar sut y gellir dadansoddi Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ôl nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig (yn ôl blwyddyn a thrwy gyfuno blynyddoedd lle bo hynny'n briodol) | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022-10/2022 |
| 2.06b | Ystyried sut i chwyddo sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer grwpiau lleiafrifol a gwaith profi gwybyddol | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | 2.06a | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 2.07 | Ystyried sut ac a fyddai modd i ddata ar fylchau cyflog gael eu casglu a'u cyhoeddi ar gyfer nodweddion gwarchodedig gwahanol a nodweddion cysylltiedig | Cerrig milltir tlodi, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cwmpasu Rhaglen Lywodraethu | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 2.08 | Ystyried dichonoldeb cydgasglu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru, yn ôl nodweddion gwarchodedig | Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Tasglu Data Cynhwysol | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 2.09 | Datblygu dangosyddion perfformiad i fonitro gweithrediad cynlluniau gweithredu a strategaethau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (lle nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol fel prosiectau o fewn yr adrannau Cydraddoldeb, Hil neu Anabledd) | Cwmpasu | 3.17, 4.02 | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 2.10 | Ystyried opsiynau ar gyfer monitro tlodi digidol yn gywir, yn enwedig yng nghyd-destun pobl ifanc ledled Cymru. | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 2.11 | Gwella prosesau casglu data ar gydraddoldebau a phrosesau adrodd ar y data hynny fel rhan o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 2.12 | Dadansoddiad cychwynnol o ddata cydraddoldeb y Cyfrifiad a banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw gydag Ymchwil Data Gweinyddol Cymru er mwyn ystyried yr hyn sydd ar gael a pha waith ymchwil pellach sydd ei angen, er enghraifft Cymharu nodweddion rhwng 2011 a 2021 Dadansoddi cyfeiriadedd rhywiol ar gyfer arolwg mawr cyntaf gan gynnwys y data hyn | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | Mynediad o fis Ionawr 2023 |
| 2.13 | Ymchwilio i effaith barhaus Brexit/yr argyfwng costau byw ar bobl â nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig | Cwmpasu, Tasglu Hawliau Pobl Anabl, Argymhellion Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig | Yn dilyn 3.03 | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |

| Rhif Adnabod | Blaenoriaeth | Ffynhonnell | Cysylltiadau / dibyniaethau | Uned Arweiniol | Arweinydd | Statws | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.14 | Gwaith ymchwil i nodi sut y gall data lywio a mireinio ymyriadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd (gan gynnwys mynediad anghyfartal at wasanaethau). | Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 2.15 | Cymorth ar gyfer yr agweddau cydraddoldeb ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc | Cwmpasu | | Trawsbynciol | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 3.01 | Adolygu'r defnydd a wneir o'r termau rhyw a rhywedd yng nghyhoeddiadau a chasgliadau data ac ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru | Tasglu Data Cynhwysol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Wedi dechrau | 01/2022 – 03/2023 |
| 3.02 | Datblygu cwestiynau interim wedi'u cysoni ar gyfer rhywedd a rhyw, ymchwilio i ddull Cymru o gasglu gwybodaeth am ryw/rhywedd gydag argymhellion ar gyfer y dyfodol | Tasglu Data Cynhwysol | 2.02 | Cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 03/2023 |
| 3.03 | Ymchwilio i effaith barhaus Brexit a'r argyfwng costau byw ar rywedd | Cwmpasu | | Cydraddoldeb | Arweinydd maes polisi | Wedi dechrau | |
| 3.04 | Ystyried dichonoldeb defnyddio setiau data arolygon mawr a gweinyddol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o nodweddion y rhai sy'n profi amddifadedd lluosog. | Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru | | Cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 3.05 | Datblygu Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru sy'n cynnwys datblygu dangosyddion integreiddio ar gyfer Cymru | Cwmpasu | | Cydraddoldeb | Arweinydd maes polisi | Wedi dechrau | |
| 3.06 | Prosiect cysylltu data'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE | Cwmpasu | | Cydraddoldeb | Ymchwil Data Gweinyddol Cymru | Wedi ymrwymo | |
| 3.07 | Gwella argaeledd, cyflawnder, a manylder data ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | | Cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 3.08 | Sefydlu ystorfa ddata ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Cwmpasu, Tasglu Data Cynhwysol | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Y dyfodol | |
| 3.09 | Tystiolaeth ynghylch profiadau pobl sydd wedi dioddef arferion/therapi trosi er mwyn helpu i ddylunio a gwella gwasanaethau cymorth; | Rhaglen Lywodraethu, Cynllun Gweithredu LHDTC+ | | Cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 3.10 | Tystiolaeth ynghylch y rhwystrau canfyddedig mewn perthynas â'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd | Rhaglen Lywodraethu, Cynllun Gweithredu LHDTC+ | | Cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 3.11 | Cefnogi gofynion y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif o ran tystiolaeth cydraddoldebau | Rhaglen Lywodraethu, Cwmpasu | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Y dyfodol | |

| Rhif Adnabod | Blaenoriaeth | Ffynhonnell | Cysylltiadau / dibyniaethau | Uned Arweiniol | Arweinydd | Statws | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.12 | Ymchwilio i effaith COVID-19 ar gymunedau LHDTC+ gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc gan ddilyn ymlaen o'r adolygiad cyflym o dystiolaeth: Beth yw effaith pandemig a chyfyngiadau COVID-19 ar gymunedau LHDTC+ yn y DU a pha gamau allai helpu i fynd i'r afael â'r rhain? | Polisi LHDTC+ | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Y dyfodol | |
| 3.13 | Ymchwilio i brofiadau cymunedau LHDTC+ yng Nghymru | Polisi LHDTC+, Tasglu Data Cynhwysol | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Y dyfodol | |
| 3.14 | Ymchwilio i wasanaethau neu leoedd un rhyw a chymunedau traws | Polisi LHDTC+, Tasglu Data Cynhwysol | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Y dyfodol | |
| 3.15 | Ymchwilio i hygyrchedd a gwaith ymchwil Gwasanaeth Hunaniaeth Rhywedd Cymru, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau traws, er mwyn canfod ffyrdd gwell o helpu pobl draws i ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys ymdrin â chofnodion meddygol. | Polisi LHDTC+ | | Cydraddoldeb | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Y dyfodol | |
| 3.16 | Mesur gweithrediad ac effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ | Polisi LHDTC+ | | Cydraddoldeb | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Y dyfodol | |
| 4.01 | Ymchwilio i brofiadau bywyd o hiliaeth mewn Addysg Bellach | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Rhaglen Lywodraethu | | Hil | Arweinydd maes polisi | Wedi ymrwymo / dechrau | |
| 4.02 | Mesur gweithrediad ac effaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Rhaglen Lywodraethu | | Hil | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 4.03 | Cyhoeddi dadansoddiad o'r holl ystadegau gofal cymdeithasol yn ôl ethnigrwydd | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Rhaglen Lywodraethu | 2.01 | Hil | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Wedi ymrwymo | |
| 4.04 | Cyfrifiad o oedolion sy'n cael gofal cymdeithasol i gynnwys ethnigrwydd | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – gofal cymdeithasol | | Hil | Arweinydd maes polisi | Wedi ymrwymo | |
| 4.05 | Adolygu'r Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol o safbwynt cydraddoldebau (yn enwedig hil) | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – gofal cymdeithasol Rhaglen Lywodraethu | | Hil | Gofal Cymdeithasol Cymru | Wedi ymrwymo | |
| 4.06 | Nodi'r bylchau mewn tystiolaeth mewn perthynas â'r holl barthau gan gynnwys data a gasglwyd ac a gofnodwyd ar ethnigrwydd yn y system cyfiawnder troseddol | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – trosedd a chyfiawnder Rhaglen Lywodraethu | | Hil | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 4.07 | Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Astudiaeth o Brosesau, Rhagolygon a Pheryglon | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Rhaglen Lywodraethu | | Hil | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |

| Rhif Adnabod | Blaenoriaeth | Ffynhonnell | Cysylltiadau / dibyniaethau | Uned Arweiniol | Arweinydd | Statws | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Prifysgol Caerdydd | | |
| 4.08 | Newid diwylliant arweinyddiaeth a sefydliadol: Astudiaeth o ymdrechion newid diwylliant Cymru wrth-hiliol | Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Rhaglen Lywodraethu | | Hil | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Prifysgol Caerdydd | Wedi ymrwymo | |
| 5.01 | Ymchwil ar sut y gellir casglu gwybodaeth i adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd. | Tasglu Hawliau Pobl Anabl, adroddiad Drws ar Glo | | Anabledd | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi dechrau | 01/2022 – 03/2023 |
| 5.02 | Mewnbwn i Arolwg Profiadau Pobl Anabled SYG/CO a bwydo i mewn i fodel polisi a samplau Cymru | Adran Anabledd Llywodraeth y DU | | Anabledd | Canolfan Gydraddoldebau Llywodraeth y DU | Wedi dechrau | 01/2022- |
| 5.03 | Ymchwil i faterion penodol, megis effaith COVID-19 ar iechyd meddwl, ac i brosesau dadgyfuno data daflu goleuni ar brofiad penodol y rhai hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig | Adroddiad Drws ar Glo Tasglu Data Cynhwysol | | Anabledd | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 5.04 | Ymchwil i'r rhyngberthynas rhwng ffactorau economaidd-gymdeithasol a ffactorau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain | Adroddiad Drws ar Glo | | Anabledd | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo | |
| 5.05 | Ystyried pobl anabl a niwrowahanol yng Nghymru er mwyn deall y rhwystrau i gyflogaeth a'r rhesymau dros ganlyniadau cyflogaeth gwahanol. | Adroddiad Drws ar Glo | | Anabledd | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd | Wedi ymrwymo, rhywfaint o waith adolygu llenyddiaeth wedi dechrau | |